

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Tachwedd 12, 2019 am 7.30 o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), John Hughes, Gethin Williams
Geraint Rowlands, Llinos Williams, Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins a Henry M.
Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Elfed ap Gomer, Carwyn Evans.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.d.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref 8, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cofnodion Hydref 8, 2019

Eitem 11.a. Llythyr (9/10/2019) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod maent yn ymwybodol o'r thipio / storio gwastraff carpedi yn Hengwrt. Maent wedi rhoi gwybod hyn i Gyfoeth Naturiol Cymru oherwydd mae'r gwastraff ar raddfa fawr. Maent yn disgwyl ateb oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru

Eitem 9.a. Anfonwyd llythyr (22/1/2019) yn dweud bod y Cyngor yn cefnogi'r apêl.

Eitem 4. Eitem 4. Eitem 9.a. Llythyr ateb (6/11/2019) oddi wrth Llywodraeth Cymru ynglŷn cael cymorth ariannol i wneud gwaith ar Doiledau Bontddu. Maent yn rhoi gwybod nid oes cyllid grant ar gael eleni ac oherwydd hyn ni allent gefnogi ein cais.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd gofyn i Paul Cook brisio'r gwaith sydd angen ei wneud i ddod yr adeilad i'r un safon â Thoiledau Cyhoeddus yn Ganllwyd.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (15/10/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda drafft o'r Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION TACHWEDD 12, 2019

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhannol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

b. Bil (23/10/2019) am £138.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at daliad gwasanaeth archwilio mewnol ar gyfer cyfrifon 2018/2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Llythyr (6/11/2019) oddi wrth Dawns i Bawb, Caernarfon. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

ch. Derbyniwyd (5/11/2019) £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at osod beddfaen ar y diwedd ar David Morgan Griffiths a Cyril John Griffiths.

d. Derbyniwyd bil (10/11/2019) am £564.00 oddi wrth Mr J. Ll. Williams am glirio llwybrau ardal Bontddu 2019.

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Derbyniwyd bil (22/10/2019) am £20.00 oddi wrth RBI Poppy Appeal am 'type B wreath'.

Penderfynwyd talu'r bil.

e. Balans yn y banc ar 29 Hydref, 2019: £10,775.64.

f. Anfonwyd copi o 'Sefyllfa ariannol y Cyngor sy'n debygol am weddill y flwyddyn gan ddefnyddio ffigyrau 2018-2019' i'r aelodau.

Roedd yr aelodau yn fodlon gyda'r adroddiad.

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (14/10/2019) yn amgau llythyr (1/10/2019) oddi wrth BT yn rhoi eu rhaglen i ddileu rhai ffonau cyhoeddus. O'r rhestr ymgae'dig nid oes ffonau cyhoeddus yn y gymuned yn cael eu henwi.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (6/11/2019) oddi wrth Adran Priffyrdd a Bwrdeisterfol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Cyngor Gwynedd yn wynebu fwy o doriadau yn eu cyllideb i gynnal gwasanaethau. Oherwydd arbedion sydd ei angen, maent yn gofyn os mae gan y Cyngor Gymuned neu grwpiau cymunedol ddiddordeb cymryd cyfrifoldeb o feysydd chwarae Bro Cymer, Llanelltyd a Swn y Nant, Bontddu. Mae'n bosib gwneud hyn trwy drosglwyddo neu weithio mewn partneriaeth. Maent angen ymateb cyn Rhagfyr 31.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

Roedd yr aelodau o'r farn bod y ddau faes chwarae yn angenrheidiol.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r swyddog yr Adran ein bod gyda diddordeb cymryd cyfrifoldeb o'r meysydd chwarae. Penderfynwyd hefyd gwahodd y swyddog i'n cyfarfod nesaf i gael gwybod beth fydd y costau a gofynion, ac oes yna gyngor cymuned gyda meysydd tebyg i gael gwybod y manylion i'w rhedeg.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. Derbyniwyd galwad ffôn (11/11/2019) oddi wrth Cambrian News yn holi am hanes diweddaraf Halfway House, Bontddu. Rhoddwyd rhifau teleffon Elfed ap Gomer, Gethin Williams a Carwyn Evans i gael gwybodaeth.

b. Roedd Mr Gruff Jones a Ms Llinos Alun o Goedwigoedd Glaw Cymru yn bresennol yn y Cyfarfod. (Gweler Eitem 4. Eitem 11.b. ac Eitem 8.a. yn Cofnodion Hydref 8, 2019).

Cafwyd adroddiad ar eu prosiect Coedwigoedd Glaw Cymru yn y gymuned. Rhoddwyd gwybod iddynt y tiffeddianwyr yn y gymuned a rhoddwyd y wybodaeth ar eu mapiau. Rhoddwyd gwybod iddynt i gysylltu â Mr Causer i gael gwybod am y rhododendron sydd angen eu torri yn Bontddu.

c. Nid oedd Swyddog o Gyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i roi y diweddaraf ar y llwythi carpedi ar dir Mr Hett. (Gweler ac Eitem 11.a. yn Cofnodion Hydref 8, 2019, hefyd Eitem 4 Eitem 11.a. uchod).
